Kids in Museums

## Sut all eich amgueddfa ennyn diddordeb plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn hanes LHDTQ+?

Nod y canllaw hwn yw cefnogi eich gwaith o gynrychioli a chynnwys cymunedau cwiar ac ennyn diddordeb plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn hanes LHDTQ+.

Yn Kids in Museums, safwn mewn undod â chymunedau LHDTQ+. Mae gan amgueddfeydd gyfrifoldeb i groesawu a chynrychioli pawb mewn cymdeithas, gan gynnwys y rheiny sy'n eu hystyried eu hunain yn lesbiaid, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a chwiar. Mae'n rhaid iddyn nhw fod yn fannau diogel heb aflonyddwch a gwahaniaethu i bobl LHDTQ+. Mae gan amgueddfeydd hefyd rôl bwysig mewn datblygu hawliau cymunedau LHDTQ+ ac ymdrin â'r rhagfarn y maen nhw'n ei wynebu.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol yn 2019, mae'r nifer o deuluoedd gyda chyplau o'r un rhyw wedi tyfu o fwy na 50% ers 2015, gan olygu mai hwn yw un o'r mathau o deuluoedd sy'n tyfu gyflymaf yn y DU. Er bod cynnydd wedi digwydd o ran datblygu cydraddoldeb, mae ystadegau Stonewall yn dangos bod cymunedau LHDTQ+ yn dal i wynebu gwahaniaethu anghyfartal a throseddau casineb yn eu bywydau dyddiol. Trwy gynnwys safbwyntiau a hanesion gan gymunedau cwiar, gall amgueddfeydd herio ystrydebau a rhagfarn, a honni bod y straeon hyn yn perthyn yn ein sefydliadau diwylliannol.

Yn draddodiadol, mae hanesion sy'n ymwneud ag atyniad rhwng pobl o'r un rhyw neu sefyllfa nad yw'n cydymffurfio â'r normau rhywiol wedi cael eu cuddio neu eu heithrio o amgueddfeydd. Mewn blynyddoedd diweddar, gwelwyd mwy o archwilio profiadau cymunedau LHDTQ+ yng nghasgliadau amgueddfeydd, arddangosfeydd, a digwyddiadau fel y mae'r erthygl hon a ysgrifennwyd gan Margaret Middleton yn ei archwilio. Mae'r ffaith ein bod yn awr yn gweld mwy o gynrychiolaeth cwiar mewn amgueddfeydd yn gynnydd ynddo'i hun, ond mae angen i ni sicrhau bod hyn yn hygyrch i bob cynulleidfa, ac nid i'r rheiny sydd â diddordeb arbennig mewn diwylliant cwiar.

Diben yr adnodd hwn yw bod yn fan cychwyn i helpu amgueddfeydd i ennyn diddordeb plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn hanes LHDTC+. Rydym hefyd wedi cynnwys canllawiau ar gyfer cynhwysiant LHDTC+ mewn amgueddfeydd. Yn yr adrannau a ganlyn, byddwn yn rhannu awgrymiadau ac esiamplau o amgueddfeydd eraill sy'n arwain ar y gwaith hwn yn y sector.

### 1. Gwnewch eich safle'n groesawgar i aelodau o gymunedau LHDTQ+

Mae rhwystrau'n dal i fodoli a allai wneud i bobl deimlo'n anghyfforddus neu'n anniogel mewn amgueddfeydd. Mae rhai camau y gallwch eu cymryd i wneud eich safle'n groesawgar i aelodau cymunedau LHDTQ+.

#### Iaith

Pan fyddwch yn meddwl am ymwelwyr LHDTQ+ gall fod yn ddefnyddiol cael fframwaith o'r iaith sydd fwyaf priodol a pharchus i'w defnyddio wrth gyfathrebu â staff ac ymwelwyr. Gall hyn helpu pawb i deimlo bod pobl eraill yn eu gweld ac yn eu croesawu. Mae'r siart iaith

gynhwysol i deuluoedd a grewyd gan Margaret Middleton yn ddefnyddiol i'ch cyfeirio at eiriau ac ymadroddion cynhwysol i'w defnyddio wrth gyfeirio at deuluoedd a phlant. Mae hyn yn ddefnyddiol i'w gofio hefyd wrth gasglu data neu wrth ofyn i bobl lenwi ffurflenni; does dim rhaid iddo fod yn orfodol i ymwelwyr nodi eu rhyw ar ffurflenni adborth.

Mae gan yr elusen Stonewall restr o dermau cyffredin defnyddiol sy'n ymwneud â hunaniaeth LHDTQ+, a allai helpu os ydych yn ysgrifennu dehongliad ar gyfer arddangosfa neu raglen am gymunedau LHDTQ+.

**Cyfleusterau ac arwyddion**

I sicrhau eich bod yn darparu ar gyfer pawb yn eich amgueddfa a'u bod i gyd yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio eich cyfleusterau, mae'n syniad da i ddarparu toiledau i bob rhyw a mannau newid babanod. Mae'r arwyddion gorau ar gyfer toiledau i bob rhyw yn rhoi'r ffocws ar y cyfleuster nid y defnyddiwr. Darllenwch ragor am arwyddion cynhwysol i'r rhywiau ar flog Margaret Middleton.

Mae gan Museums Association erthygl sy'n amlinellu'r arferion gorau ar gyfer toiledau diogel a hygyrch mewn amgueddfeydd, p'un a ydyn nhw'n rhai i rywiau penodol ai peidio (nodwch os gwelwch yn dda bod yr erthygl hon tu ôl i wal dalu, felly efallai y bydd angen i chi fod yn aelod o MA i'w ddarllen).

**Staff**

Mae'n bwysig bod eich staff a'ch gwirfoddolwyr yn ymwybodol o bolisïau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant eich amgueddfa. Dyma rai enghreifftiau o brotocolau cydraddoldeb amgueddfeydd:

- Amgueddfa'r Cartref
- Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl
- Amgueddfa Cymru

Mae Amgueddfa Llundain wedi llwytho eu hyfforddiant cynhwysiant chwe rhan ar YouTube fel ei fod ar gael i'w ddefnyddio'n rhad ac am ddim. Mae sefydliad cymorth LHDTQ+ The Proud Trust yn cynnig adnoddau hyfforddiant ac ar-lein sydd wedi eu teilwra'n arbennig i sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae Curious Arts hefyd yn cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth am LHDTQ+ i sefydliadau celfyddydau.

Mae hefyd yn bwysig creu amgylchedd cynhwysol a chefnogol i aelodau staff LHDTQ+. Mae rhai amgueddfeydd wedi cefnogi staff i greu gweithgorau LHDTQ+ i rannu adnoddau a chreu lle diogel ar gyfer rhwydweithio a hyrwyddo cynhwysiant.

**Gwnewch eich cefnogaeth yn glir**

Dangoswch yn glir bod eich amgueddfa'n cefnogi cymunedau LHDTQ+ drwy'r flwyddyn gron. Mae Mis Hanes LHDT a Pride yn adegau gwych i gysylltu â hanes a diwylliant

LHDTQ+, ond dylai'r rhain gael eu defnyddio fel mannau cychwyn i ymwreiddio gwaith pellach i mewn i'ch rhaglennu a'ch arddangosfeydd parhaol. Cam sylfaenol arall y gallwch ei gymryd yw pwysleisio eich cefnogaeth i bobl LHDTQ+ a chael polisi dim goddefiant cyhoeddus i homoffobia a thrawsffobia.

Ystyriwch y deunydd hyrwyddo a ddefnyddiwch a meddyliwch a allech chi gynnwys unrhyw luniau o deuluoedd nad ydynt yn heteronormadol. Os oes gennych lyfrau plant yn eich amgueddfa, gallech chi gynnwys rhai sy'n dathlu teuluoedd LHDTQ+; mae gan y Book Trust restr ddefnyddiol o lyfrau darluniau.

**Cofiwch fod cymunedau LHDTQ+ yn amrywiol**

Daw pobl sy'n eu hystyried eu hunain yn LHDTQ+ o bob math o wahanol ddiwylliannau, crefyddau a chefndiroedd economaidd. Wrth raglennu arddangosfeydd neu ddigwyddiadau, gwnewch yn siŵr eich bod yn ymwybodol o'r amrywiaeth o leisiau sy'n haeddu cael eu cynrychioli.

### 2. Ymgynghori a chydweithredu

Gweithiwch gydag aelodau'r cyhoedd wrth gynllunio cynnwys sydd â themâu LHDTQ+. Ymgynghorwch â'r cymunedau rydych yn bwriadu eu cynrychioli i sicrhau bod eich gwaith yn sensitif a chywir. Yn yr arddangosfa 'Beyond the Binary', gweithiodd yr Amgueddfa Pitt Rivers yn uniongyrchol â chymunedau LHDTQ+ i roi rheolaeth iddyn nhw dros y ffordd roedden nhw'n cael eu cynrychioli. Mae gan Amgueddfa ac Oriel Gelf Hastings Gasgliad Hanes Cwiar wedi ei greu o bobl LHDTQ+ lleol sy'n cwrdd ac yn cyfrannu gwrthrychau a straeon i'r amgueddfa.

Os oes gennych Grŵp Ieuenctid yn eich amgueddfa, efallai y byddan nhw eisiau gweithio ar brosiect am hanes cwiar. Yn Ancient House Museum Thetford Life, mae'r Teenage History Club wedi gweithio ar brosiect sy'n archwilio hanes LHDTQ+ lleol, ac aethon nhw ymlaen i'w rannu gyda'r cyhoedd drwy arddangosfeydd, cynadleddau a mwy.

Mae hefyd yn ddefnyddiol ymgynghori â'ch staff eich hun sy'n LHDTQ+. Mae gan V&A weithgor LHDTQ+ sy'n edrych ar themâu rhywedd a rhywioldeb yng nghasgliadau'r amgueddfa.

### 3. Ail ddehongli eich casgliadau

Mae llawer o gasgliadau amgueddfeydd eisoes yn cynnwys gwrthrychau sy'n ymwneud â rhywedd a rhywioldeb. Un ffordd dda o dynnu sylw at y straeon hyn yw drwy greu taith neu lwybr. Gweithiodd Amgueddfa Genedlaethol yr Alban â phobl ifanc ar eu llwybr LHDTQRhA+. Mae'n tynnu sylw at wrthrychau sydd â chysylltiad heb ei archwilio yn y gorffennol â hanes LHDTQ+. Yn debyg i hynny, mae'r British Museum yn cynnal taith o amgylch yr amgueddfa sy'n archwilio'r cysylltiadau LHDTQ+ yn eu casgliad.

Gallwch hefyd ail ddehongli eich casgliadau drwy gyfrwng digidol, fel y gyfres fideo Queer as Folklore yn Amgueddfa Llundain.

Os ydych wedi gwneud gwaith i ail ddehongli gwrthrychau yn eich casgliadau, beth am ychwanegu'r dehongliad hwn at yr arddangosiadau parhaol yn eich amgueddfa? Trwy wneud hynny gall eich ymwelwyr i gyd elwa o ddysgu am yr hanes cwiar sydd gan eich casgliadau i'w cynnig. Yn dilyn eu harddangosfa Beyond the Binary, ychwanegodd Amgueddfa Pitt Rivers labelau i'w casgliadau parhaol i adlewyrchu safbwyntiau newydd yr arddangosfa.

**4. Cynhaliwch ddigwyddiadau a gweithdai**

Mae defnyddio eich rhaglenni cyhoeddus yn ffordd wych o ennyn diddordeb plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn hanes LHDTQ+. Mae llawer o amgueddfeydd yn cynnig gweithgareddau crefft i deuluoedd yn barod a gall y rhain glymu i mewn â Mis Treftadaeth LHDTQ+ a Pride. Mae gan Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl ac Amgueddfeydd Brenhinol Greenwich weithgareddau wedi eu cynllunio ar gyfer cynulleidfaoedd iau sy'n defnyddio symbol yr enfys ar gyfer cynhwysiant a balchder LHDTQ+. Mae Drag Queen Storytime yn ddigwyddiad poblogaidd iawn i blant; mae Amgueddfeydd Birmingham, ymysg eraill, wedi cynnal eu fersiynau eu hunain.

Gallwch hefyd gynnig gofod sy'n croesawu teuluoedd LHDTQ+ yn eich amgueddfa, fel Rhwydwaith Teulu LHDTQ+ Amgueddfeydd Brenhinol Greenwich. Mae'r rhwydwaith deufisol hwn yn darparu lle i deuluoedd LHDTQ+ gyfarfod a chymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'i gilydd. Gallwch ddarllen rhagor am eu gwaith yn ein blog o'r Amgueddfa Forol Genedlaethol.

Mae rhai digwyddiadau blynyddol sy'n bodoli'n barod y gall eich amgueddfa gymryd rhan ynddynt. Mae'r Ŵyl OUTing the Past yn dathlu hanes ac ymgyrchu LHDTQ+ ac yn rhedeg bob blwyddyn. Mae amgueddfeydd yn aml yn gweithredu fel canolbwynt yr ŵyl ac yn cynnal eu gweithgareddau a'u cyflwyniadau eu hunain. Mae llawer o ddyddiau ymwybyddiaeth LHDTQ+ yn cael eu dathlu ar draws y flwyddyn hefyd – gall hwn fod yn fan cychwyn da i'ch rhaglenni hanes cwiar. Cofiwch gynnwys hyn yn eich rhaglenni parhaol hefyd, fel nad yw eich cysylltiad â straeon LHDTQ+ yn un dros dro. Dyma rai enghreifftiau o wahanol amgueddfeydd:

- Chwefror: Mis Hanes LHDTQ+ – Amgueddfeydd Brenhinol Greenwich
- 31 Mawrth: Trans Day of Visibility – Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl
- 23 Medi: Bi Visibility Day – Amgueddfa Cwm Cynon

**5. Ymgysylltu'n ddigidol**

Mae llawer o amgueddfeydd wedi defnyddio cyfryngau digidol i ennyn diddordeb plant a phobl ifanc mewn themâu LHDTQ+. Creodd y Tate fideo byr i blant gael archwilio artistiaid LHDTQ+. Mae gan Amgueddfa Hanes Pobl ym Manceinion rai gweithgareddau tynnu llun ar-lein i'w defnyddio gartref sy'n cysylltu â themâu cymdeithasol, yn cynnwys Pride LHDTQ+.

Os ydych chi wedi creu unrhyw adnoddau digidol sy'n ymwneud â themâu, gallech chi dynnu sylw at y rhain drwy roi eu tudalen lanio nhw ar eich gwefan. Mae gan Amgueddfa Llundain ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl dudalennau ymroddedig ar eu gwefannau ar gyfer eu holl waith yn ymwneud â hanes LHDTQ+.

**6. Dolenni defnyddiol / Darllen pellach**

- Museum of Transology
  Casgliad mwyaf arwyddocaol y DU o wrthrychau sy'n cynrychioli bywydau pobl draws, anneuaidd a rhyngrywiol.
- Queer Britain
  Elusen sy'n gweithio i sefydlu amgueddfa LHDTQ+ genedlaethol gyntaf y DU.
- LGBT Hero
  Elusen iechyd a lles genedlaethol sy'n cefnogi mwy na 100,000 o bobl LHDTQ+ bob mis drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a mathau gwahanol o gefnogaeth y gallwch ymddiried ynddynt, yn cynnwys cymorth un i un, grŵp a chyfoedion.
- Stonewall
  Y sefydliad hawliau LHDT mwyaf yn Ewrop.
- Switchboard
  Llinell gymorth a gwybodaeth LHDTQ+.
- The Proud Trust
  Sefydliad LHDT+ sy'n cefnogi pobl ifanc LHDT+ drwy grwpiau ieuenctid, cymorth cyfoedion, rhaglenni mentora a'r gwasanaeth sgwrsio Proud Connections.
- Just Like Us
  Elusen i bobl ifanc LHDT+ sydd â chenhadaeth i rymuso pobl ifanc i hyrwyddo cydraddoldeb LHDT+.
- Canllawiau AAM i Groesawu Pobl LHDTQ+ i Amgueddfeydd
  Arweiniad yr American Alliance of Museums i'r arferion gorau wrth groesawu cymunedau a phobl broffesiynol LHDTQ+.

Gyda diolch i Margaret Middleton am eu cymorth i ysgrifennu'r adnodd hwn.